YSGOL GYNRADD GYMRAEG BRYN -Y- MÔR

*Pennaeth/ Headteacher: Mrs Elin Wakeham*

Mewn undod mae nerth /Stronger together


16/12/2021

# DIWEDDARIAD COVID PWYSIG

Annwyl Rieni / Gofalwyr

Rydym wedi derbyn cyfathrebiad y bore yma ynghylch dychwelyd yn ddiogel i'r ysgol ym mis Ionawr 2022. Rwy'n siŵr bod pawb sy'n ymwybodol bod yr amrywiad diweddaraf o COVID yn achosi llawer o bryderon ynghylch iechyd y cyhoedd, diogelwch y cyhoedd a'r pwysau ar y GIG. Mae'r Gweinidog Addysg - Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi heddiw canllawiau diogelwch newydd i ysgolion:

- Argymhellir bod pob ysgol yn dychwelyd i'r categori 'risg uchel iawn' ar y fframwaith penderfyniadau rheoli heintiau COVID-19 Lleol ar gyfer ysgolion.
- Bydd dydd Mawrth, Ionawr 4ydd a dydd Mercher, Ionawr 5ed yn ddiwrnodau cynllunio i staff baratoi ar gyfer ymateb i newididau addysgu. *Gall hyn* olygu y gall rhai grwpiau o blant ddychwelyd i ddysgu o hirbell. Nid yw'r grwpiau hyn wedi'u cadarnhau eto a bydd hi'n dod yn gliriach dros yr wythnosau nesaf os oes angen i unrhyw ddisgyblion ddychwelyd i ddysgu o hirbell. O DAN YR AMGYLCHIADAU GYFREDOL, ein cynllun yw bod pob disgybl yn dewchwlyd i'r **ysgol ar Ionawr 6ed**. OND, dylai pob rhiant gynllunio ar gyfer newid posib, ac y gallai'r newid hwn ddod ar fyr rybudd.

**Bydd yr ysgol ar gau i bob disgybl ar y 4ydd a'r 5ed o Ionawr.**

(Ar Ionawr 5ed os oes angen **gofal plant brys** ar gyfer eich plentyn, a'ch bod yn **weithiwr allweddol, hanfodol**, cysylltwch â'r ysgol i'n hysbysu erbyn dydd Gwener 17/12/2021 2.00pm)

- Yn dibynnu ar nifer yr achosion COVID yn y gymuned, gall olygu y bydd angen i'r ysgol weithio ar gapasiti llai ac felly ***efallai*** y bydd angen i glwb brecwast a chlwb ar ôl ysgol gau. Oherwydd y sefyllfa ansicr a bod penderfyniadau yn seiliedig ar Asesiad Risg Ysgol, rydym wedi penderfynu mynd am yr opsiwn mwyaf diogel o gau'r ddau glwb am bythefnos gyntaf y tymor. Os yw'r sefyllfa'n caniatáu, ein cynllun yw i **ailddechrau'r clwb brecwast a'r clwb gofal ysgol ddydd Llun 17eg o Ionawr**.
- Gwersi Addysg Gorfforl y tu allan i'r ysgol - Wrth i ni aros am ddata ynghylch lledaeniad covid byddwn yn oedi cyn cychwyn gwersi AG (fel nofio) i ddydd Llun 17eg Ionawr.
- Hoffai llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru ofyn i bob rhiant ac aelod o gymuned yr ysgol wneud penderfyniadau a fydd yn helpu i gefnogi'r cynllun i reoli lledaeniad Covid 19 trwy ddilyn yr holl
- Wrth gasglu'ch plentyn o safle'r ysgol, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwisgo mwgwd oni bai eich bod wedi'ch eithrio.

Gallaf ddeall y bydd y diffyg eglurder yn achosi anawsterau a rhwystredigaeth i chi fel rhieni / gofalwyr yn yr


**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**

**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**

**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**

**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**

**Ffôn/ Tel: 01792 466354**

un modd ag y mae i staff yr ysgol. Fodd bynnag, gallaf eich sicrhau, cyn gynted ag y bydd unrhyw wybodaeth bellach yn cael ei rhannu â ni, y bydd yn cael ei rhannu gyda chi ar frys!

Darllenwch y llythyr gan Gyfarwyddwr Addysg Abertawe, Helen Morgan Rees.

Diolch i chi i gyd am eich cefnogaeth barhaus yn ystod diwedd anodd arall i'r tymor.

Yn Gywir,

E. Wakeham

Elin Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**